**TGAU**

3000N30-1A

A19-3000N30-1A

**DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD 2019 – BORE**

# CYMRAEG IAITH

**Uned 3**

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiadol**

2 awr

## DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A

3000N301A
01

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**DARN DARLLEN 1**

# Y Tywydd ar Ddydd Nadolig



TYMHEREDD UCHAF
**15.6 °C**
YN
**1920**
Dyfnaint, De Lloegr




NADOLIG GWLYPAF
**165 mm**
YN
**2015**
Capel Curig, Gwynedd



GWYNT CRYFAF
**101 mya**
YN
**2011**
Sella Ness, Ynysoedd Shetland



NADOLIG OERAF
**-18.3 °C**
YN
**1878**
Durham, Gogledd Lloegr



ORIAU HIRAF O HAUL
**7.5 awr**
YN
**1979 a 2010**
Caint a Chernyw, De Lloegr



TRWCH MWYAF O EIRA
**47 cm**
YN
**1981**
Perth, Yr Alban

**DARN DARLLEN 2**

http//www.**amgueddfa.cymru**/blog/2017-11-28/Sut-i-fesur-eira/

national museum wales
amgueddfa cymru

RYDYCH CHI YN: Hafan > Blog > Sut i fesur eira

English

Amdanom ni

Amdanom ni | Swyddi | Cymryd Rhan | Polisi a Strategaeth | Nodau ac Amcanion | Atebolrwydd | Gweithio gydag eraill

# Sut i Fesur Eira

Penny Tomkins, 28 Tachwedd 2017

Mae mesur faint o law sy'n disgyn yn hawdd o'i gymharu ag eira oherwydd bydd yr eira'n aml yn cael ei chwythu gan y gwynt ac yn lluwchio. Mae hyn yn golygu bod yr eira'n ddwfn mewn mannau ond yn llai trwchus dafliad carreg i ffwrdd. Dyna pam mae'n rhaid mesur mewn mannau gwastad, agored ymhell o'r lle bydd eira'n lluwchio.

Un ffordd o fesur cwymp eira yw gyda ffon bren. Bydd y meteorolegwr yn gosod y pren mewn lleoliad agored ac yn mesur yr eira bob chwech awr.

Os oes eira ar lawr, beth am fynd ati i fesur dyfnder yr eira? Y cyfan sydd ei angen arnoch chi yw pren mesur.

- Gwthiwch y pren i'r eira tan ei fod yn cyffwrdd y ddaear a chofnodi pa mor ddwfn yw'r eira fesul milimedr.
- Cofnodwch o leiaf 3 mesuriad i gyfrifo dyfnder cyfartalog yr eira.
- Cyfrifwch y cyfartaledd drwy adio'r cofnodion gwahanol a'u rhannu gyda'r nifer o gofnodion. Os ydw i'n cofnodi tri dyfnder o 7cm, 9cm a 6cm, rhaid adio pob rhif (7 + 9 + 6 = 22) cyn rhannu gyda 3 (22 ÷ 3 = 7.33). Dyfnder cyfartalog yr eira felly yw 7.33cm.

Mae gorsafoedd tywydd fel y Swyddfa Dywydd *(MET Office)* yn defnyddio synwyryddion laser i fesur dyfnder yr eira. Gall meteorolegwyr gasglu data o bob cwr o'r wlad wrth wasgu botwm – llawer haws a mwy dibynadwy nag anfon pobl allan i'r oerfel gyda phren mesur!

3000N301A
03

**DARN DARLLEN 3**

# NEGES BWYSIG I RIENI

**1/3/18 11.08 yb**

**Ysgol Gyfun Coed y Glyn**

# CAU'R YSGOL OHERWYDD EIRA

## Bydd yr ysgol yn cau am 12 o'r gloch a gofynnwn i chi gasglu eich plant o'r ysgol cyn gynted ag y bo modd cyn y bydd mwy o eira'n disgyn.

Mae'r cwmnïau bysiau yn dod i gasglu'r disgyblion erbyn hanner dydd.

Mae'r penderfyniad i gau wedi ei wneud ar ôl ymgynghori'n ofalus â'r llywodraethwyr a phenaethiaid yr ysgolion cyfagos. Mewn unrhyw benderfyniad, diogelwch ein plant a'n staff sy'n cael blaenoriaeth. Rhaid i ni hefyd ystyried amodau gyrru a chyflwr palmentydd a ffyrdd o amgylch yr ysgol.

Mae'r Swyddfa Dywydd wedi rhybuddio y gall trafnidiaeth gyhoeddus gael ei chanslo wrth i eira dwfn gau rhai ffyrdd. Mae toriadau hir i gyflenwadau trydan a gwasanaethau eraill yn debygol hefyd.

S4C

**S4C Tywydd** @S4Ctywydd · Mawrth 1
Rhybudd COCH o wynt ac **eira** wedi'i gyhoeddi i'r de-ddwyrain.


15:00 prynhawn yma i 02:00 bore yfory.

Mae coch yn golygu bod disgwyl tywydd eithafol, difrod, problemau trafnidiaeth, colli pŵer, a risg i fywyd.

#Eira2018

Mae'n debygol iawn y bydd yr ysgol wedi cau yfory eto. Am y wybodaeth ddiweddaraf, edrychwch ar



- wefan yr ysgol <u>www.ysgolgyfuncoedyglyn.cymru</u>
- cyfrif *Twitter* yr ysgol @coedyglyn



**DARN DARLLEN 4**

# Paldaruo



| | |
|---|---|
|  | Rydw i newydd gael neges destun gan fy mab yn dweud bod yr ysgol yn cau oherwydd yr eira. Does dim digon o staff wedi llwyddo i gyrraedd yr ysgol! Mae hyn yn pathetig!<br><br>Rwy'n gofalu am fy mhlant ar fy mhen fy hun yr wythnos hon gan fod fy ngwraig ar daith fusnes i Sgandinafia. Yn Stockholm yn Sweden, mae'n -22°C heddiw. Mae popeth yno'n rhedeg fel yr arfer, er gwaetha'r eira, a'r ysgolion i gyd ar agor. Dywed hi bod trigolion gwledydd eraill yn rhyfeddu ein bod yn gadael i bopeth ddod i stop yng Nghymru (a Phrydain) oherwydd haen denau o'r stwff gwyn.<br><br>Tybed beth yw cost y miliynau o ddiwrnodau gwaith ac ysgol a gollwyd heddiw i drethdalwyr ac i fusnesau? **Dafydd Roberts – Yr Wyddgrug** |
|  | Cytuno'n llwyr, Dafydd. Pe bai ysgolion Awstria yn gorfod cau oherwydd eira, byddai'r plant yn treulio mwy na hanner y flwyddyn gartref yn y tŷ. Fedra' i ddim credu anallu pobl yng Nghymru i ddelio ag ychydig o eira. Mae'r ateb yn syml – prynwch esgidiau addas i blant a theiars sy'n addas ar gyfer tywydd gaeafol ar gyfer y car. **Angela Hayes – Y Trallwng** |
|  | Ddoe, penderfynodd ysgolion y ddinas aros ar agor a rhaid imi ddweud nad oedd hi'n hawdd mynd â'r merched i'r ysgol. Fel arfer maen nhw'n cerdded, ond penderfynais eu gyrru fore ddoe, yn amlwg yn poeni am eu diogelwch. Cymerodd 45 munud i deithio ¾ milltir. Roedd pobl mewn ceir yn llithro trwy oleuadau traffig wrth geisio brecio. Diolch byth, mae'r ysgolion wedi cau ers hynny. Rwy'n teimlo bod diogelwch rhieni a phlant yn hollbwysig. Dylai ysgolion gau mewn tywydd gwael. **Jâms ap Rhisiart – Casnewydd** |
|  | Athrawes ysgol gynradd ydw i, a dw i wedi gorfod aros gartre heddiw oherwydd yr eira. Caeodd yr ysgol amser cinio ddoe. Arhosodd yr holl staff nes bod rhieni wedi casglu eu plant. Fel pawb arall, mae'n rhaid i ninnau deithio ar drenau, mewn ceir neu gerdded i'r gwaith ac os yw trenau'n cael eu canslo, ffyrdd yn cael eu cau ac amodau'n ddrwg, ni allwn gyrraedd. Dim athrawon – dim ysgol. Pan gawn ni *jet-packs* i'n galluogi i guro'r elfennau, yna byddwn yn gallu cyrraedd yr ysgol beth bynnag fo'r tywydd. **Rhian Jenkins – Gwalchmai** |

**DARN DARLLEN 5**

· Ffermio ·

# Nid yw'r eira yn wynfyd i'r ffermwyr

gan Gwawr Lewis

EIRA, eira a mwy o eira! Gorchuddiwyd y rhan fwyaf o dir Cymru gan flanced wen dros yr wythnosau diwethaf. Dw i wedi dod yn gyfarwydd â gweld eira bob hyn a hyn dros y blynyddoedd, ond does dim yn cymharu â'r hyn dw i wedi ei weld yn ddiweddar – eira o glawdd i glawdd ac yn cau nifer o'r priffyrdd.

Roedd yr eira mor wael yr wythnos diwethaf, ni fedrais gyrraedd adref i Drelech a bu'n rhaid i mi ddibynnu ar garedigrwydd fy nheulu yng Nghaerfyrddin! Er bod yr eira'n hudol, mae ganddo'r gallu i ddod â'r wlad i stop, gan gau ysgolion ac effeithio ar wasanaethau a busnesau am gyfnod.

Ond, serch hynny, mae gwaith y ffermwr yn mynd yn ei flaen.

Fel y gwelsom ar *Ffermio* wythnos diwethaf, mewn cyfnod o dywydd garw, mae'r eira'n cynnig her ychwanegol i'r rheiny sy'n ceisio parhau â gwaith y fferm. Gyda ffyrdd bach y wlad heb eu graeanu, mae sawl fferm wedi eu hynysu'n llwyr, heb yr un cerbyd yn gallu dod i mewn nac allan oddi yno.

Mae'n dipyn o broblem i'r ffermwyr hynny sy'n aros am gyflenwad o fwyd i'r anifeiliaid neu angen milfeddyg i'r fferm, ond does neb yn fwy dibynnol ar gael y ffordd i'r buarth yn agored na'r ffermwr godro. Gyda'r ffyrdd hyn naill ai wedi'u cau neu'n rhy beryglus i'r tanceri llaeth, mae sawl ffermwr wedi gorfod godro ac yna taflu'r llaeth. Mewn diwydiant sydd wedi dioddef yn enbyd yn ddiweddar, mae'r weithred o daflu llaeth yn dorcalonnus ac yn ergyd drom arall iddynt.

Wedi mis Tachwedd hynod o wlyb, y Rhagfyr oeraf ers blynyddoedd, a sawl ardal yng Nghymru'n gweld y trwch mwyaf o eira ers degawdau, tybed pa fath o dywydd fydd yn ein hwynebu dros y misoedd nesaf?

**DARN DARLLEN 6**

# Wil ac Aeron – Gwlad y Ceirw

*Bu Wil ac Aeron yn bugeilio ceirw yn eithafoedd yr Arctig wrth geisio eu symud yn ddiogel dros 200 milltir o dir dan eira trwchus.*

Mae'r ddau ffermwr ifanc o ardal Machynlleth, Wil Hendreseifion ac Aeron Pughe yn hen gyfarwydd â gofalu am gannoedd o ddefaid ond mae'r her mae'r ddau'n ei hwynebu yn **Wil ac Aeron – Gwlad y Ceirw** yn brofiad hollol newydd i'r ddau.



Gofalu am geirw yn eithafoedd yr Arctig mae'r ddau ffrind yn y rhaglen sydd â naws Nadoligaidd iddi. Gwlad y Samiaid yng ngogledd Norwy – gwlad sydd byth a beunydd yng ngolau dydd drwy'r haf a thywyllwch yn y gaeaf – yw lleoliad y rhaglen. Y dasg sy'n wynebu Wil ac Aeron yw symud rhai cannoedd o geirw yn ddiogel dros 200 milltir o dir dan eira trwchus ac mewn oerfel sy'n brathu.



Bob gwanwyn mae'r ceirw'n symud o dir pori isel y gaeaf dros lwyfandir y mynyddoedd agored nes cyrraedd arfordir y gogledd lle maen nhw'n geni eu lloi dros yr haf. Gwaith Wil ac Aeron yw bugeilio'r ceirw gan deithio ar gefn *ski-doos** sy'n berffaith ar yr eira caled ond sy'n dueddol o suddo i'r eira meddal.

Cyn diwedd y daith mae'r ddau'n cael y cyfle i fugeilio'r ceirw ar eu pen eu hunain mewn tymheredd sydd weithiau mor isel â -15 °C. Sut hwyl byddan nhw ei gael arni a pha mor wahanol yw'r dasg i'r gwaith o fugeilio praidd o ddefaid?

Mae Wil ac Aeron yn ymgartrefu gyda dau deulu o Samiaid ac yn cael croeso arbennig iawn. Yn ogystal â'u dysgu sut i fugeilio ceirw, mae'r Samiaid yn dysgu rhywfaint o'u hiaith i'r ddau a mynd â nhw am ddiwrnod o bysgota drwy dyllau yn yr iâ.

"Wnaethon ni ddim teimlo fel dynion dieithr o gwbl," meddai Aeron. "Roedden nhw'n groesawgar dros ben ac yn barod i ddysgu popeth i ni. Roedd yn gyfle unwaith mewn oes a fydd yn aros yn fy nghalon am byth. Maen nhw'n bobl sy'n hapus â'r ychydig sydd gyda nhw. Dw i'n fwy ymwybodol nawr pa mor ffodus rydym ni. Dw i'n cwyno llai erbyn hyn."

Wedi dweud hynny, mae'r ddau'n cytuno eu bod nhw wedi 'cael llond bol o'r eira' ac o syrthio ynddo gyda bron bob cam roedden nhw'n ei gymryd.

**Gellir gwylio rhaglen Wil ac Aeron – Gwlad y Ceirw ar S4C Noswyl Nadolig am 20:25.**

* *Ski-doos* – Beic modur sy'n teithio ar eira